1 **'Cyfathrebu'**
**Drwy'r wythnos, Ystafell Addysg, y Llyfrgell Genedlaethol**
Arddangosfa o weithiau celf, ffotograffig yn bennaf, a grëwyd gan fyfyrwyr Plas Lluest. Seilir y gwaith ar ymatebion personol pob unigolyn i arddangosfa a gynhaliwyd y llynedd ym mhrif oriel y Llyfrgell o eitemau o gasgliadau'r Llyfrgell yn ymwneud â chyfathrebu.

2 **Celf Van Gogh gan blant Ysgolion Cynradd**
**Drwy'r wythnos, Ystafell Addysg, y Llyfrgell Genedlaethol**
Cafodd sesiwn dysgu am yr arluanydd Van Gogh effaith gadarnhaol ar ddysgu a gwaith ysgol y plant. Dyma gyfle i ddangos y llwyddiant a gafodd y Llyfrgell â'i phrosiect 'Turner ar Daith' a ddefnyddiai gelf yn gyfrwng i gyfoethogi'r dysgu mewn ysgolion.

3 **Drwy lygad y claf…**
**Drwy'r wythnos, y Ffreutur, Ysbyty Bronglais**
Darluniau o brofiad gweledol llawdriniaeth ar gataractau fel y'i darluniwyd gan arlunwyr sydd wedi cael y llawdriniaeth. Mae'r paentiadau yn dangos sut mae'r olwg yn gwella ar ôl y llawdriniaeth yn ogystal â phrofiad arlunwyr lliwddall.

4 **Coedwig a Bryn, Fferm a Maes: Celf wedi'r Drin**
**Drwy'r wythnos. Yr Ysgol Gelf**
Yn aml mae themâu, cyfryngau a dulliau'r printiau a'r lluniau a wnaed rhwng y rhyfeloedd yn cael eu dehongli fel ymateb i effeithiau enbyd y Rhyfel Byd Cyntaf, fel gwrthsafiad yn erbyn moderniaeth ac ymdrech i ddychwelyd i draddodiadau a welid yn hynafol a chysurlon. Bydd yr arddangosfa hon yn ystyried y dybiaeth honno a'i herio.

5 **Arddangosfeydd:**
**Marged Pendrell, Llestri: tir a môr**
**Tjibbe Hooghiemstra, Paentiadau, 'Sandy Island'**
**Drwy'r wythnos, yr Oriel Nwy**

6 **"The artistic genius of Van Gogh"**
**Dydd Mawrth 10 Mehefin, 12.30pm**
**Dydd Iau 12 Mehefin, 7.00pm, Darlith**
**Drwm y Llyfrgell Genedlaethol**

7 **Manvan Tenovus**
**Dydd Mawrth 10 Mehefin. Bydd y fan yn parcio ger Canolfan y Celfyddydau**
Yn cynnig cwnsela i unigolion neu gwplau, cefnogaeth grwpiau, a chyngor am hawliau budd-daliadau i ddynion sy'n byw gyda chanser y prostad neu'r ceilliau, a dynion y mae'r canserau hyn wedi effeithio arnynt.
**http://www.tenovus.org.uk/manvan**

8 **Posteri a Chyflwyniad – "Diagnosing prostate cancer: Ultrasound and magnetic resonance imaging"**
**Dydd Mawrth, 10 Mehefin, 11.00am–3.00pm**
**Canolfan y Celfyddydau**

9 **Dosbarthiadau therapi celf – "Dementia in imagination"**
**Dydd Mawrth, 10 Mehefin, 10.00am–11.30pm**
**Dydd Gwener, 13 Mehefin, 2.00pm–34.30pm**
**Llyfrgell Gyhoeddus Aberystwyth**
Gweithdy crefft creadigol i bobl â dementia arnynt.
I archebu, cysylltwch â Sally Corlett – Symudol: 07810 505 117
Ffôn: 01970 635 369. Ar gael i ateb galwadau o 8am tan 5pm.

10 **Mâs yn y Dre**
**Dydd Mercher 11 Mehefin, 1.00pm–2.00pm**
**Amgueddfa Ceredigion**
Cyflwyniad Amser Cinio am hel atgofion gyda chyfle i gael cip ar ein blychau darganfod 'retro' newydd. Daeth amser hamdden yn rhan hanfodol o'n bywydau ni i gyd ac yn aml ein hatgofion o fynd 'Mâs yn y Dre' yw'r rhai sy'n aros gyda ni hiraf.

11 **Profiad Trydan-feddygol Fictoraidd yr Athro Marmaduke Salt**
**Dydd Iau 12 Mehefin, 1.00pm (30 munud)**
**Amgueddfa Ceredigion**
Credai llawer o bobl Oes Fictoria mai trydan oedd sylwedd hanfod bywyd ac mai rhyw faith o beiriant trydanol oedd y corff dynol. Yn y digwyddiad hwn fe deithiwch yn ôl i'r 1890au i glywed y hybarch Athro Salt yn esbonio'r cyswllt rhwng trydan ac iechyd - gydag arddangosiadau ymarferol.

12 **Cyrff Ystwyth 'Y Dyddiau a Fu'**
**Dydd Iau 12 Mehefin, 7.30pm**
**Dydd Gwener 13 Mehefin, 7.30pm**
**Stiwdio Emily Davies, Adeilad Parry Williams**
*Cyrff Ystwyth yn cyflwyno 'Y Dyddiau a Fu':* Darn personol sy'n adlewyrchu nifer o wahanol ddylanwadau yw'r theatr ddawns hon. O blith themâu sylfaenol y gwaith mae harddwch, cariad ac antur tyfu mewn bro benodol a theulu penodol. Mae Cyrff Ystwyth yn creu gwaith theatr ddawns gan bobl sydd ag anableddau dysgu, gwaith sy'n cyfrannu at waith ymchwil yn Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.
**I archebu, cysylltwch â: mma@aber.ac.uk**


PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Llwybr Celf

*"Celfyddyd a Gwyddor Ansawdd Bywyd"*

9fed-16eg Mehefin 2014






Traeth y De

Mae gan Geredigion ddwy elfen wrth ei chalon sy'n cynnal a meithrin ansawdd ein bywydau, sef cymuned gefnogol, a bro eithriadol o hardd. Mae'r ddwy yn greiddiol i ansawdd bywyd pobl y Canolbarth. Pan geir nodau cyffredin fe geir hefyd ymdrech gyffredin nerthol. Mae Prifysgol Aberystwyth a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cydweithio i ddatblygu'r Llwybr Celf hwn ar gyfer Wythnos Prifysgolion Prydain 2014. Mae'r Llwybr Celf yn dod â gwahanol elfennau o waith ein sefydliadau lleol ynghyd i ddangos sut mae Hanes a Chof, Celf a Symud ac Iechyd a Chymdeithas Ddynol i gyd yn dod at ei gilydd i greu dathliad cyfoethog ac atyniadol o waith a brwdfrydedd y bobl sy'n byw a ffynnu yng Ngheredigion.

*Diolchiadau i CAVO, Haul - Celfyddyd mewn Iechyd, Cyrff Ystwyth, Amgueddfa Ceredigion, yr Oriel Nwy, Tenovus, y Llyfrgell Genedlaethol a llawer o bobl eraill sydd wedi helpu â´r prosiect hwn.*

## Lleoliadau digwyddiadau'r Llwybr Celfs

- 1,2 & 6 – Llyfrgell Genedlaethol Cymru, digwyddiadau
- 3 – Ffreutur Ysbyty Bronglais, digwyddiad
- 4– Yr Ysgol Gelf, digwyddiad
- 5 – Yr Oriel Nwy, digwyddiad
- 7 & 8 – Canolfan y Celfyddydau, digwyddiadau
- 9 – Llyfrgell Gyhoeddus Aberystwyth, digwyddiad
- 10 & 11 – Amgueddfa Ceredigion, digwyddiadau
- 12 – Adeilad Parry-Williams, digwyddiad